


HANFODION ADOLYGIAD DYLUNIO

1 BETH SY'N DIGWYDD PRYD:



2 PA WYBODAETH I'W CHYFLWYNO YMLAEN LLAW:

- > Amlinelliad o'r briff, y weledigaeth a'r amcanion
- > Cynllun lleoliad
- > Crynodeb o'r dadansoddiad o'r safle
- > Cynlluniau, adrannau a gweddoluniau sy'n egluro'r hyn sy'n cael ei gynig

Dylid anfon tri chopi caled ac un copi electronig at Gomisiwn Dylunio Cymru bythefnos ymlaen llaw

3 BETH I'W GYFLWYNO AR Y DIWRNOD:

- > Bydd gennych 15-20 munud – y sgwrs gyda'r panel yw'r rhan fwyaf gwerthfawr o'r adolygiad dylunio, ac felly os bydd eich cyflwyniad yn rhy hir, bydd gennych lai o amser i sgwrsio. **Cadwch at yr amser os gwelwch yn dda.**
- > Cyflwynwch y cynigion yn glir ac yn gryno.
- > Bydd y panel wedi gweld y wybodaeth sydd yn y deunydd cyn yr adolygiad, ac felly nid oes angen i chi gyflwyno popeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym beth sydd wedi newid ers i'r deunydd cyn yr adolygiad gael ei gyflwyno.
- > Er mwyn sicrhau preifatrwydd pawb sy'n bresennol ac er mwyn bodloni gofynion GDPR, nid yw Comisiwn Dylunio Cymru yn recordio cyfarfodydd fideo, ni waeth pa blatfform sy'n cael ei ddefnyddio (h.y. Zoom, MStTeams ac ati). Nid yw Comisiwn Dylunio Cymru chwaith yn awdurdodi unrhyw unigolyn neu barti sy'n bresennol i recordio unrhyw gyfarfod neu ran o gyfarfod.

Gallwch anfon eich cyflwyniad drwy e-bost ymlaen llaw neu ddod ag ef gyda chi ar gof bach ar y diwrnod.

Mae croeso hefyd i fyrddau A1 a modelau ffisegol.

4 CWESTIYNAU I FEDDWL AMDANYNT YMLAEN LLAW:

- > Cwestiwn allweddol y bydd gan y panel ddiddordeb ynddo fydd "Pam ei fod o fel yna?". Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym beth sydd wedi llywio'r penderfyniadau dylunio rydych wedi'u gwneud.
- > Sut mae'n berthnasol i'r cyd-destun ac unrhyw weledigaeth strategol/uwchgynllun/strategaeth?
- > Sut mae eich dadansoddiad o'r safle wedi dylanwadu ar y dyluniad?
- > Allwch chi egluro'r cysyniad dylunio'n glir gan ddefnyddio un neu ddau o ddiagramau?
- > Sut mae dull integredig o ymdrin â chynaliadwyedd wedi llywio'r dyluniad?